

CIC

Cynhelir CIC yn Capel Coch nos Wener nesaf, Hydref 14.

Fel y soniwyd yr wythnos ddiwethaf, mae criw ifanc CIC am godi arian at gynllun 'Gefeillio Toiled' *Tearfund*. Trwy'r cynllun hwn, mae cyfle i eglwysi – ac unigolion hyd yn oed – dalu am doiled glân i gymunedau sydd heb doiled o'r fath ar hyn o bryd. Mae cannoedd os nad miloedd o doiledau wedi eu darparu trwy'r cynllun hwn.

Gobeithiwn benderfynu nos Wener sut y byddwn yn mynd ati i godi arian.

Haiti

Wrth gyflwyno apêl am gymorth i'r bobl a'r cymunedau sydd wedi dioddef yn Haiti oherwydd Corwynt Mathew, mae Tearfund yn ein hannog i gofio'r adnod hon: 'Bydd gweddi a offrymir mewn ffydd yn iachau y sawl sy'n glaf, a bydd yr Arglwydd yn ei godi ar ei draed' (Iago 5:15).

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Hydref 16: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN
Dydd Mawrth, Hydref 11: Bore Coffi

Y mis nesaf - Deiniolen

Hydref 9

5.00 p.m. - Oedfa Ddiolchgarwch

Hydref 16

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Hydref 23

5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

Nos Fercher, Hydref 12: Y Pwyllgor Adeiladau am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 16: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr Euron Hughes ac am 5.00 o'r gloch gan Mr Richard Lloyd Jones. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Hydref 16: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Hydref 16: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Richard O Jones, Gaerwen.

CARMEL

Nos Wener, Hydref 14: Dwylo Prysyr am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 16: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Hydref 10: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.

Y mis nesaf - Llanberis

Hydref 9

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - YsgolSul
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Hydref 16

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes
11.15 a.m. - YsgolSul
5.00 p.m. - Mr Richard Ll Jones

Hydref 23

10.30 a.m. - Oedfa Deulu - Diolchgarwch
+ Cinio Cawl (elw at Ward Alaw)



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 700: Dydd Sul, 09 Hydref, 2016

Codi'r groes bob dydd

Ychydig dros flwyddyn yn ôl oedd y tro dwythfa i mi weld peth tebyg. Mi soniais amdano yn *Gronyn* ar y pryd. Ar gylchfan y'i gwelais y llynedd, ac ar gylchfan y'i gwelais ddydd Mercher – cylchfan Caeathro y tro hwn. Tybiais yn ddigon naturiol mai'r dyn a welais ger Pont y Borth y llynedd oedd un o'r ddau ddyn a welais yng Nghaeathro. Wedi'r cwbl, faint o bobl sy'n llusgo croes o amgylch y wlad?

Ond nid Clive Cornish, y dyn a welais y llynedd, oedd yr un o'r ddau, ond Emyr Mathias o Landysul a Lyndsay Hamon. Ers mis, maent wedi cerdded y wlad, gan ddechrau yn Nhŷ Ddewi a gorffen ar gopa'r Wyddfa ddoe. (Erbyn ddoe, roedd Clive Cornish wedi ymuno â nhw, fel bod tair croes yn cael eu cario i'r copa.) Cyn hynny, daeth Emyr a Lyndsay i wasanaeth arbennig yn yr Eglwys yn Llanberis nos Wener. Yno, cafwyd peth o hanes Emyr a chefnidir y daith hon.

Rwy'n dychmygu fod codi croes bren 50 pwys, 12 troedfedd o hyd, yn waith caled, heb sôn am orfod ei llusgo ar draws gwlad. Ac rwy'n dychmygu nad peth hawdd yw goddef y gwawd a ddaw o du rhai pobl o wneud hynny. Ond mae'r Cristnogion hyn yn gweld y cyfan yn gyfle i dystio i Grist a'i groes wrth i bobl eu holi am y groes ac am y Ffydd Gristnogol. Diolchwn i Dduw am eu tystiolaeth i'r Gwaredwr.

Soniodd Iesu wrth ei ddisgyblion am godi croes. Ond am beth oedd o'n sôn?

Nid am y groes a gododd Iesu ei hun. Cododd Iesu honno, a marw arni rhag i ni orfod dioddef yr hyn a ddiodeffodd o. Ar y groes, roedd Iesu'n dioddef cosb ein pechodau, fel nad oes rhaid i ni ei dioddef ein hunain. Roedd croes Iesu'n unigryw; a diolch am hynny, nid oes angen i ni godi'r groes honno.

Nid sôn oedd Iesu chwaith, fel y gwnawn ni, am 'gael croes drom i'w chario' wrth i ni orfod wynebu pob math o dreialon ac anawsterau. Nid rhywbeth sy'n dod arnom yw'r groes y sonia Iesu amdani, ond rhywbeth yr ydym ni yn dewis ei wneud.

Ac mae'n rhaid ychwanegu hefyd nad sôn oedd Iesu am genhadu trwy gario croes bren o amgylch y lle. Nid amarch i Emyr a'i ffrindiau, nac i'w ffydd a'u hymdrech fawr i gyflwyno'r Efengyl i bobl Cymru yw dweud hynny. Rhaid ei ddweud rhag i ni roi'r argraff mai gweithred anghyffredin i ambell Gristion mwy brwdfrydig na'i gilydd yw codi croes. Mae Iesu'n sôn am bob Cristion pan ddywed, 'Os myn neb ddod ar fy ôl i, rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun a chodi ei groes bob dydd a'm canlyn i' (Luc 9:23). Rhaid i bob Cristion fod yn barod, bob dydd, i roi Crist yn gyntaf ('ymwadu ag ef ei hun'), i ddiodeff pob math o sen a gwawd er mwyn Iesu Grist ('codi ei groes'), ac i ufuddhau i'r Arglwydd Iesu a'i efelychu ('a'm canlyn i'). Mae cario darn hir o bren trwm yn anodd; mae 'codi'r groes' (yn yr ystyr a roes Iesu i'r ymadrodd) yn anos fyth.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'Canys uniawn yw gair yr ARGLWYDD; a'i holl weithredoedd a wnaed mewn ffydd-**BEIBL BYW** londeb. Efe a gâr gyfiawnder a barn: o drugaredd yr ARGLWYDD y mae y ddaear yn gyflawn. Trwy air yr ARGLWYDD y gwnaethpwyd y nefoedd; a'u holl luoedd hwy trwy ysbryd ei enau ef. Cyngor yr ARGLWYDD a saif yn dragywydd; meddyliau ei galon o genhedlaeth i genhedlaeth. Gwyn ei byd y genedl y mae yr ARGLWYDD yn DDUW iddi; a'r bobl a ddetholodd efe yn etifeddiaeth iddo ei hun. (Salm 33:4-6, 12).

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch, a chynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch am 5.00 o'r gloch.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch, a chynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr Oedfa Deulu am 2.00 o'r gloch. Gwasanaethir gan y Gweinidog.

Ni fydd oedfa yn Nant Peris.

Cofion

Croeso

Rydian ni wedi hen arfer â chlywed am bobl ifanc yn cael 'blwyddyn gap' rhwng gorffen ysgol a dechrau coleg. I lawer, cyfle i deithio'r byd neu ennill cyflog neu blwyddyn i gael pob math o brofiadau cyffrous yw honno. Ers blynyddoedd, mae rhai Cristnogion ifanc wedi treulio blwyddyn gap yng Ngholeg y Bala yn cyfrannu at y gwaith plant ac ieuenticid a geir yno. Cafodd ein dau fab hynaf ni, Dafydd a Gethin, ill dau gyfnod yno cyn mynd i'r coleg, ac mae'r ddau'n dal i gofio ac i ddiolch am y gymdeithas a'r hwyl a'r help a gawson nhw yno gan Bryn a Nia Williams. Ar y pryd, roedd plant Bryn a Nia yn ifanc iawn.

Mae pymtheng mlynedd ers i Dafydd fynd yno gyntaf, ac erbyn hyn mae'r rhod wedi troi, gan fod Morgan, plentyn fenga Bryn a Nia, wedi gadael ysgol ac wedi penderfynu cael blwyddyn gap ei hun. Mae am dreulio'r flwyddyn honno yn cael profiad o waith Cristnogol gydag eglwysi mewn gwahanol rannau o'r wlad. Ac ydi, mae'r rhod wedi troi go iawn gan fod Morgan am dreulio rhan o'r deg wythnos nesaf yma gyda mi yn yr Ofalaeth hon. Bydd hefyd yn dilyn cwrs

gyda'r Parchg Euros Jones yng Ngholeg yr Annibynwyr, ac yn mynychu darlith neu ddwy yn y Brifysgol ym Mangor.

Mae'n braf iawn cael croesawu Morgan, a thros yr wythnosau nesaf gobeithio bydd cyfle iddo gyfarfod â rhai ohonoch o leiaf. Yn naturiol, bydd cyfle iddo gymryd rhan yng ngwaith Cynllun Efe tra bydd gyda ni.

Gobeithio hefyd y bydd yr hyn a gaiff yma a thros weddill y flwyddyn o werth iddo, ac y bydd y cyfan yn help iddo gael golwg ar wahanol agweddau i fywyd a gwaith yr eglwysi cyn iddo fynd i ddilyn cwrs diwinyddol yn Belfast ymhen y flwyddyn.

Cinio

Ar ôl yr Oedfa Deulu yn Capel Coch fore Sul, Hydref 23, bydd Cinio Cawl i godi arian at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.

Mae croeso cynnes i chi ymuno â ni i gael cinio efo'n gilydd a chefnogi gwaith Ward Alaw yr un pryd.

Rhowch wybod i Falmai os gwelwch yn dda os ydych yn bwriadu aros i ginio.

Capel Coch

Cynhaliwyd cyfarfod i aelodau Capel Coch a Nant Padarn yn Capel Coch nos Fercher diwethaf i drafod y datblygiadau nesaf o ran y festri.

Diolch i bawb a ddaeth yno i rannu eich awgrymiadau ac i gael syniad o'r hyn y bwriedir ei wneud. Mae rhai pethau sydd rhaid eu gwneud o ran cynnal a chadw, fel diogelu'r to a'r waliau allanol. Mae gofynion iechyd a diogelwch yn golygu bod rhaid gwneud pethau eraill, fel ailweirio'r festri, a rhoi sylw i'r gegin. Mae angen toiledau a system wresogi newydd. Dim ond rhai o'r pethau sydd angen eu gwneud yw'r rhain.

Bydd angen cyngor pensaer arnom, a phenderfynwyd y dylai'r Pwyllgor yn gyntaf lunio rhestr o'r newidiadau arf-aethedig i'r pensaer.

Wedi i ni gael y cynllun llawn, a gweld faint fydd y gwaith yn ei gostio, bydd angen cael cefnogaeth yr Henaduriaeth a'r Sasiwn i wario peth o'r arian a gaed o werthu'r capel. Cawn hefyd wneud cais am arian ato o Gronfa Strategaeth yr Henaduriaeth.

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod eto am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Hydref 12.

Diolch yn fawr i bawb a gytunodd i fod yn aelodau o'r Pwyllgor. Prif gyfrifoldeb y Pwyllgor fydd trefnu'r gwelliannau i'r festri dros y misoedd nesaf.

Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir Cyfarfod Gweddi Efe am 10.30 o'r gloch fore fory, Hydref 10, yn 'Cartref', Caeathro. Croeso cynnes i bwy bynnag a fynno i ymuno â ni.

Cyfarfod Chwarter

Bydd Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yn cael ei gynnal yn Eglwys Unedig Llandudno am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Hydref 26. Yn ystod y cyfarfod pregethir gan y Parchg Wibur Lloyd Roberts. Mae croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod hwn.

Henaduriaeth

Bydd Henaduriaeth Arfon yng Nghapel y Groes, Penygroes am 3.00 a 6.30 o'r gloch ddydd Mawrth, Hydref 18. Oedfa Ordeinio blaenoriaid fydd oedfa'r hwyr.

Bore coffi

Cynhelir y Bore Coffi misol yn festri Capel Coch rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch, ddydd Mawrth, Hydref 11 er budd Cronfa Adnoddau'r Capel.